



Cyd-Bwyllgor ERW
Dydd Gwener, 29ain Ebrill, 2022
Rhith-Gyfarfod

2.35 - 3.05 yp

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Emlyn Dole [Cadeirydd], Cyngor Sir Caerfyrddin

Y Cynghorydd Robert Smith	Cyngor Dinas Abertawe
Y Cynghorydd Rosemarie Harris	Cyngor Sir Powys
Y Cynghorydd David Simpson	Cyngor Sir Penfro
Dr Caroline Turner	Cyngor Sir Powys
Mr Will Bramble	Cyngor Sir Penfro
Mr Phil Roberts	Cyngor Dinas Abertawe
Y Cynghorydd Guy Woodham	Cyngor Sir Penfro
Mr Jonathan Haswell	Cyngor Sir Penfro (ERW - Swyddog A151)
Mr Gareth Morgans	Cyngor Sir Caerfyrddin (Cyfarwyddwr Arweiniol)
Mr Stephen Richards-Downes	Cyngor Sir Penfro - (Dirprwy Gyfarwyddwr Arweiniol)
Mrs Tracey Meredith	ERW/Swyddog Monitro Partneriaeth (Cyngor Abertawe)
Mr Jeremy Saunders	Archwilio Cymru
Mr Ian Altman	Prif Swyddog ERW
Mr Mark Mclaughlin	Prif Gyfrifydd ERW
Mr Matthew Holder	Cyngor Sir Penfro (ERW - Pennaeth Archwilio Mewnol)
Mrs Sarah Edwards	Cyngor Sir Penfro (ERW - Dirprwy Swyddog A151)
Ms Ruth Lee	Rheolwr Cymorth Busnes ERW
Mr Mark Campion	ESTYN
Ms Emma Bryer	Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democraidd)
Mrs Kelly Evans	Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democraidd)
Mr Aled Eynon	Cyngor Sir Caerfyrddin (Cyfieithu)

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Glynog Davies (Cyngor Sir Caerfyrddin) a Wendy Walters (Prif Weithredwr, Cyngor Sir Caerfyrddin).

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol yn y cyfarfod.

3. LOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 8 GORFFENAF 2021

Cofnod 8 - Prydles y Llwyfan

Darparwyd diweddariad gan y Cyfarwyddwr Arweiniol yn hysbysu'r Cyd-bwyllgor bod y brydles ar gyfer Y Llwyfan bron wedi'i chwblhau o ran ei throsglwyddo o Bowys i Sir Gaerfyrddin.

PENDERFYNWYD Ilofnodi cofnodion cyfarfod y Cyd-bwyllgor a oedd wedi'i gynnal ar 8 Gorffennaf 2021, gan eu bod yn gywir.

4. CYNLLUN ARCHWILIO 2021 ARCHWILIO CYMRU - CYD-BWYLLGOR EIN RHANBARTH AR WAITH

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor adroddiad ar y Cynllun Archwilio 2021 gan Archwilio Cymru yn amlinellu'r gwaith sydd i'w wneud gan Archwilio Cymru wrth gyflawni ei ddyletswyddau statudol,.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL: -

- **Bod Cynllun Archwilio 2021 Archwilio Cymru yn cael ei nodi a'i gymeradwyo**
- **Bod y ffi o £13,000 yn cael ei gymeradwyo**

5. BARN SICRWYDD FLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL CONSORTIWM ERW AR GYFER 2020-21

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad ar Farn Sicrwydd Blynnyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ynghylch effeithlonrwydd trefniadau llywodraethu, rheoli mewnol, rheoli risgiau a rheolaeth ariannol ERW.



PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi Barn Sicrwydd Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol 2020-21

6. YMHOLIADAU ARCHWILIO I'R RHEINY SY'N GYFRIFOL AM LYWODRAETHU A RHEOLI

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor adroddiad gyda'r ymateb i Archwilio Cymru o ran "Ymholiadau archwilio i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli" ar gyfer 2020-21.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i gymeradwyo'r ymateb i Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, fel y'i nodir yn yr adroddiad.

7. DATGANIAD O GYFRIFON ERW AR GYFER 2020-21

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor Ddatganiad o Gyfrifon ERW ar gyfer 2020-21 i'w gymeradwyo a'i lofnodi gan Swyddog A151 ERW a Chadeirydd Cyd-bwyllgor ERW a bu'n ystyried adroddiad gan Archwilio Cymru ar yr Archwiliad o Gyfrifon a'r Farn Archwilio (ISA 260) sydd wedi'u hatodi i'r adroddiad.

Nodwyd bod yr adroddiad Datganiad o Gyfrifon ERW yn darparu gwybodaeth fanwl mewn perthynas ag elfennau penodol o Ddatganiad o Gyfrifon ERW.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-

- **Bod Datganiad Cyfrifon ERW ar gyfer 2020-21 yn cael ei gymeradwyo**
- **Bod Datganiad Cyfrifon ERW ar gyfer 2020-21 yn cael ei lofnodi gan Swyddog A151 ERW a Chadeirydd Cyd-bwyllgor ERW**

8. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL ERW 2020-21

Cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiad ynghylch canfyddiadau'r adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu ar gyfer ERW 2020-21.

Nodwyd y bu nifer o newidiadau o ran dirwyn ERW i ben a chreu Partneriaeth. Nid yw Datganiad Llywodraethu Blynyddol ERW 2020-21 wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau hyn. Bydd unrhyw gamau sy'n weddill o Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ERW 2020-21 yn cael eu cynnwys yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol ERW 2021-22, y bydd Partneriaeth yn ei weithredu yn ystod 2022-23.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol ERW ar gyfer 2020-21



9. ALLDRO ARIANNOL ERW 2021-22

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor Alldro Ariannol ERW ar gyfer 2021-22. Nodwyd y byddai cymeradwyo Alldro Ariannol ERW ar gyfer 2021-22 yn galluogi cwblhau Datganiad o Gyfrifon ERW ar gyfer 2021-22, archwilio'r Datganiad o Gyfrifon gan Archwilio Cymru, adolygu a chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon gan y Cyd-bwyllgor ac yn olaf dirwyn ERW i ben a dosbarthu unrhyw arian sy'n weddill neu adennill costau gan Awdurdodau Lleol yn unol â Chytundeb ar y Cyd ERW.

Cafwyd yr ymholiad canlynol:-

- Cyfeiriwyd at dudalen 2, yr ail baragraff yn yr adroddiad nad oedd yn ffeithiol gywir. Nid yw Powys wedi gadael ERW, mae wedi gorffen derbyn gwasanaethau ERW.

Mewn ymateb i'r ymholiad, dywedodd y Cadeirydd y byddai hyn yn cael ei gywiro yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

- **Bod alldro ariannol ERW ar gyfer 2021-22 yn cael ei gymeradwyo.**
- **Bod Swyddog A151 ERW yn cael ei awdurdodi i wneud diwygiadau i Alldro Ariannol ERW ar gyfer 2021-22, cyn cwblhau'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2021-22.**

10. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYD YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Nid oedd dim materion brys i'w trafod.

CADEIRYDD

DYDDIAD

